Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy Tirwedd Cenedlaethol

Clwydian Range and Dee Valley National Landscape

Pontcysyllte
Safle Treftadaeth Y Byd
World Heritage Site

# Thomas Telford

## Yn Nyffryn Dyfrdwy



**Thomas Telford** ydw i, Peiriannydd Sifil oedd yn byw rhwng 1757-1834.

Mae pobl yn fy adnabod i'n bennaf oherwydd fy ngwaith ar **Ddyfrbont Pontcysyllte**, ond mae gen i linell hir o waith peirianneg, ac mae llawer ohonynt yn dal i gael eu defnyddio heddiw.



Gwnaed yn bosibl gan | Made possible with
Cronfa Treftadaeth
Heritage Fund

# Gweithgaredd 1:

Yn y clip fideo 14 munud hwn, gallwch gwrdd ag ysbryd **Thomas Telford** wrth iddo ddod yn ôl yn falch, i weld ei ddarn o waith peirianneg gwych ar ôl iddo gael ei wneud yn Safle Treftadaeth y Byd dros 200 mlynedd ar ôl iddo gael ei adeiladu.

**Gwyliwch**

**Thomas Telford perfformiad**

Cafodd y ffilm sgrin werdd hon ei ffilmio yn ystod Covid gan **Mewn Cymeriad** fel rhan o Ŵyl Hanes Cymru.



# Gweithgaredd 2:

Ar ei daith i'r dyfodol, mae ysbryd **Thomas Telford** yn cwrdd â grŵp ysgol sy'n mynd i weld Dyfrbont Pontcysyllte. Yma gallwch weld clip 5 munud o'i gyflwyniad i'r plant.

**Gwyliwch**

**Darganfod Thomas Telford**








# Nodiadau i athrawon – Thomas Telford

**Mae'r atebion i'r cwestiynau 'maint y ddyfrbont' ar ddiwedd y ffilm Thomas Telford fel a ganlyn:**

Mae Dyfrbont Pontcysyllte yn 307 metr o hyd. Ydi hyn yr un fath a 8 neu 30 bws deulawr mewn ciw? *Ateb = 30*

Mae Dyfrbont Pontcysyllte yn dal 1.5 miliwn litr o ddŵr. Ydi hyn yr un fath a llond 9500 bath o ddŵr neu lond 18,750 bath o ddŵr? *Ateb = 18,750*

Ar y pwynt uchaf uwchben yr afon Dyfrdwy, mae Dyfrbont Pontcysyllte yn 39 metr o uchder. Ydi hynny'r un fath a 5 neu 9 bws deulawr ar bennau ei gilydd? *Ateb = 9*

**Os hoffech wahodd Thomas Telford i'ch ysgol, gallwch gysylltu â Mewn Cymeriad i drefnu hyn yma:**
https://www.mewncymeriad.cymru/

Mae gan **Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont Pontcysyllte a'r Gamlas** lawer o adnoddau addysgol am sut y siapiodd Telford, ymhlith eraill, dirwedd Dyffryn Dyfrdwy drwy adeiladu'r gamlas a'r ddyfrbont a'u pwysigrwydd i'r ardal ar y pryd.

- **Sut mae'r ardal wedi newid dros amser?**
- **Campwaith Peirianyddol**
- **Masnach a Diwydiant**